# <u>Cyngor Cymuned Llanycil</u>

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, Tachwedd 19eg 2024 am 8.00 o'r gloch yn Neuadd Parc. Yn bresennol oedd Rhys Richards (is-gadeirydd), Euros Puw, Arwel Davies, Geraint Jones, Rhys Jones a Huw Edwards

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Huw Charles, Catrin Roberts, Gwynfryn Williams a'r Cyng. Elwyn Edwards.

Yn absenoldeb Huw Charles, cytunodd Rhys Richards i gadeirio'r cyfarfod.

**i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Hydref a chafwyd yn gywir.**

**<u>ii) Datgan Buddiant.</u>**
Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

**<u>iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.</u>**

<u>a) Ymateb Cyngor Gwynedd i'r cwynion o'r cyfarfod diwethaf.</u>
i) Gwrych yn gordyfu i'r ffordd rhwng Llidiardau Mawr a festri'r Capel – cafwyd cadarnhad fod llythyr wedi mynd i'r tirfeddiannwr yn gofyn iddynt dorri'r gwrych.

<u>b) Cyflenwad nwyddau ar gyfer y difibs lleol.</u>
Roedd y clerc wedi derbyn cadarnhad gan y swyddog lleol na fyddant yn cyflenwi nwyddau am ddim o hyn ymlaen. Cytunwyd yn unfrydol i ychwanegu arian yn y gyllideb ar gyfer hyn a chynghori'r neuaddau lleol o'r drefn newydd.

**<u>iv) Gohebiaeth.</u>**

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

<u>a) Un Llais Cymru.</u>
i) Nodyn Datblygu Ymarfer 9 – Cylch Perwyl ar gyfer Cyfarfodydd Cynghorau.
ii) Cytundeb Tâl ar gyfer 2024-25 – trafodwyd hyn gyda'r materion ariannol isod.
iii) Model Reoliadau Ariannol 2024 – cytunwyd i fabwysiadu'r rheoliadau newydd.
iv) Amserlen Flynyddol o Weithredoedd Ariannol.

<u>b) Amrywiol.</u>
i) Triathlon Y Bala – cais am adborth.
ii) Llywodraeth Cymru - Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2025-2026.
iii) Cyngor Cymuned Llanystumdwy - cynnig i gymeradwyo Adroddiad y Comisiwn Cymunedau Cymraeg. Cytunwyd i gefnogi cais y Cyngor Cymuned ac anfon llythyr o gefnogaeth**.**
iv) Grŵp Achub Plas Tan y Bwlch – cytunwyd i gefnogi, mewn egwyddor, cais y grŵp ac anfon llythyr i'r Parc Cenedlaethol yn gofyn iddynt oedi eu penderfyniad i werthu Plas Tan y Bwlch.

**<u>v) Ceisiadau Cynllunio.</u>**
Ni chyflwynwyd unrhyw geisiadau cynllunio.

**<u>vi) Materion Ariannol</u>**
<u>a) Llywodraeth Cymru.</u>
i) Swm priodol o dan adran 137(4)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 – terfyn gwariant adran 137 ar gyfer 2025-26.

<u>b) Adolygu cyflog a chostau'r clerc.</u>
Adolygwyd cyflog y clerc a chytunwyd i gynyddu'r nifer o oriau a'r cyflog o fis Ebrill 2025.

c) Cyllideb a Praesept 2025/26.
i) Cytunwyd i ychwanegu arian ar gyfer cyflenwi nwyddau i’r difibs, cynyddu’r arian ar gyfer y wefan a chyflog y clerc, a lleihau’r gwariant ar gyfer hyfforddiant, costau cynghorwyr, ffioedd archwilio a chynnal a cadw asedau. Amcangyfrwyd y bydd £70 o ad-daliad TAW.
ii) Cytunwyd i gynyddu’r Praesept i £4,750 ar gyfer 2025-26 er mwyn sicrhau fod 3 mis o wariant gros y cyngor tu cefn ac arian i gefnogi prosiectau lleol os bydd angen.

ch) Taliadau.
Cytunwyd i dalu’r canlynol:-
i) Cyflog a chostau’r clerc (Hyd-Rhag).
ii) TWE.
iii) Hannah Gwenllian Web Designs (Gwefan).
iv) ICO.

d) Cyfraniadau Ariannol
i) Derbyniwyd ceisiadau gan Eisteddfod Talybont ac Ambiwlans Awyr Cymru. Cytunwyd i gyfrannu £150 i Eisteddfod Talybont rwan ac i drafod cais yr Ambiwlans Awyr gyda gweddill o’r ceisiadau ym mis Mawrth.

**vii) Unrhyw Fater Arall.**

a) Gofynnwyd i’r clerc ail gysylltu â’r Adran Briffyrdd ynglŷn a'r ffôs ger mynedfa Pant Neuadd, Parc gan nad oeddynt wedi neud unrhyw waith ar y safle.

## Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Mawrth 11eg am 8.00 y.h. yn Neuadd Parc.